**Cefnogaeth Gorfforaethol**
***Corporate Support***
Pennaeth Adran / *Head of Department* – Geraint Owen

Gofynnwch am/*Ask for*:
☎ (01286) 679335
🖷 (01286) 671072
E-bost / E-mail: geraintowen@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / *Our Ref*: GO/CL/GOG
Eich Cyf / *Your Ref*: DPJ/AWH/17706/7

CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

Uwch Grwner ei Mawrhydi
Gogledd Orllewin Cymru
37 Y Maes
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2NN

6.01.16

Annwyl Grwner,

**Par: Cwêst Alexander Stuart Hadley a Steffan Robert Vernon**

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 11eg o Dachwedd, 2015 at y Prif Weithredwr, ac at adroddiad cwest ar gyfer yr uchod. Rwyf yn darparu ymateb ar ran Cyngor Gwynedd i adroddiad Rheol 28 i Atal Marwolaethau Pellach.

Mae Cyngor Gwynedd yn dal rhyddfraint safle'r pwll ple ddigwyddodd y ddamwain, ond mae'r safle wedi ei brydlesu. Er hynny, mae'r Cyngor wedi gwneud trefniadau yn unol â'r gorchymyn yn dilyn y cwest, i osod rhybuddion diogelwch na ddylid ymdrochi yn y pwll ger Rhaeadr Afon Arddu, Llanberis.

Mae arwyddion wedi eu harchebu a'u derbyn a bwriedir eu gosod ar greigiau gerllaw pwll y rhaeadr er mwyn blaen-rybuddio ymwelwyr i'r safle o'r perygl o farwolaeth sy'n bodoli oherwydd cerrynt tanddwr. Bydd yr arwyddion yn cael eu gosod cyn gynted a phosibl. Mae'r tywydd gwlyb diweddar wedi oedi'r gwaith gan fod angen sicrhau llwybr diogel i weithwyr gyrraedd y safle. Byddant yn cael eu gosod unwaith bydd tywydd yn caniatáu'r gwaith gael ei gynnal yn ddiogel a gobeithir y bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2016.

Yn gywir,

Geraint Owen

**Geraint Owen**
**Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol**

Copi i: Dilwyn O Williams, Prif Weithredwr